OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 596 (Cy. 139)

# HADAU, CYMRU

## Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) (Diwygio) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *21 Ebrill 2017* |
| *Laid before the National Assembly for Wales - -* | *26 Ebrill 2017* |
| *Yn dod i rym - -* | *18 Mai 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 16 o Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 16(1) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â chynrychiolwyr y buddiannau hynny y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru yr effeithir arnynt.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) (Diwygio) 2017.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 18 Mai 2017.

### Diwygio Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2016

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2016(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Rheoliad 3 (dehongli: offerynnau Ewropeaidd) yn lle'r diffiniad o "y Gyfarwyddeb" rhodder—

"ystyr "y Gyfarwyddeb" ("*the Directive*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 2002/56/EC ar farchnata tatws hadyd(**3**);".

(3) Yn Rhan 1 o Atodlen 2 (labeli swyddogol a dogfennau swyddogol), ar ôl paragraff 7(b)(i), mewnosoder—

"(ia) rhif cyfresol wedi ei neilltuo yn swyddogol;".

(**1**) 1964 (p.14); diwygiwyd adran 16(1) a mewnosodwyd adran 16(1A) gan baragraff 5 o Atodlen 4 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i'r Ysgrifennydd Gwladol gan erthygl 2 o Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S. 1978/272), ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedi hynny i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi eu breinio bellach yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) O.S. 2016/106 (Cy.52).

(**3**) OJ Rhif L 193, 20.7.2002, t. 60, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb Weithredu'r Comisiwn (EU) 2016/317 (OJ L 60, 5.3.2016, t. 72).

*Lesley Griffiths*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

21 Ebrill 2017

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2016 (O.S. 2016/106 (Cy. 52)).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb Weithredu'r Comisiwn (EU) 2016/317 (OJ L 60, 5.3.2016, tt. 72–75), sy'n diwygio Cyfarwyddeb y Cyngor 2002/56/EC (OJ L 193, 20.7.2002, tt. 60–73), drwy ddiwygio'r gofynion ar gyfer y label swyddogol ar datws hadyd sylfaenol ac ardystiedig yn Rheoliadau 2016.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.